

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Mai 28ain, 2015 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr John Williams, (Cadeirydd); Ifor W Davies, (Is Gadeirydd); Gwilym M Thomas; Dafydd Williams; Aled Lloyd Evans; William Ifor Hughes; Margaret Griffith; Alwen Evans; Elis Gwyn Jones; Marian Evans a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau. Y Cynghorwyr Anwen Jones; Naomi Jones; Thomas Prys Jones; Brian W Ifans a Trefor Wyn Jones.

2. Dewis swyddogion am y flwyddyn 2015/2016. Penderfynwyd dewis fel a ganlyn: a) Cadeirydd, yr Is Gadeirydd, y Cynghorydd Ifor W Davies, Ward Llangybi. b) Is Gadeirydd, y Cynghorydd Marian Evans, Ward Llanystumdwy. c) Ysgrifennydd a Swyddog Ariannol Cyfrifol, Mr Richard John Roberts. ch) Elusen William Ellis, Llanystumdwy, Cynghorwyr Ward Llanystumdwy.

3. Dewisiwyd y Cynghorydd Trefor Wyn Jones yn gynrychiolydd i Bwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru.

4. Dewisiwyd y Cynghorydd Margaret Griffith yn gynrychiolydd y Cyngor ar Grwp Mynediad Dwyfor.

Cyn symud ymlaen gyda'r rhaglen waith estynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd John Williams, wahoddiad i'r Cadeirydd newydd, y Cynghorydd Ifor W Davies i gymeryd ei le yn y gadair, diolchodd i bawb am eu cefnogaeth gydol y flwyddyn a dymunodd yn dda i'r Cadeirydd newydd. Diochodd y Cadeirydd newydd i'r Cynghorydd John Williams am ei waith yntau drwy'r flwyddyn.

5. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod gynhaliwyd ar Ebrill 16eg, 2015.

6. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

7. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.

8. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Materion y Gymuned. Derbyniwyd y wybodaeth y bydd gwaith ysgubo ac asesu cyflwr y ffosydd ar Lôn Gefn Llanystumdwy yn cael ei wneud ar sail blaenoriaeth, nad yw'r gyllideb yn caniatáu glanhau pob ffos yn ei thro nac ar gylch rheolaidd a bod y ffordd rhwng Cae Brwyn a Stesion Llangybi ar fin cael ei hail wynebu.

2. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

a. Par: Cae Brwyn – Stesion Llangybi Gwaith Ail Wynebu. Derbyniwyd y wybodaeth y bydd y gwaith yma yn cychwyn ar Fai 5ed neu'n fuan wedyn ac y bydd yn cymeryd tua pedwar diwrnod i wneud y gwaith. Penderfynwyd anfon i ddiolch am y gwaith ac i ofyn oes bwriad i gario'r gwaith ymlaen at Groeslon Dilwyn?

b. Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Mai 2015. Derbyniwyd y wybodaeth am ffordd Cae Brwyn i Stesion Llangybi, arosod i gychwyn 05/05/15, Priffyrdd; Pentref Chwilog, gwaith adnewyddu cerbiau i gychwyn 11/05/15 tan 25/05/15, Priffyrdd; Llwybr 54 – Bont Fechan, gwaith i drwsio canllaw ar y rheilffordd, Rheoleiddio; Lôn Coed Cae Du, gwaith clytio i gychwyn 11/05/15 tan 15/05/15, Priffyrdd.

3. Priffyrdd; Uwch Beiriannydd Traffig; materion yn y gymuned yn cynnwys diogelwch y ffordd yn Chwilog. Derbyniwyd sylwadau'r Swyddog, yn dilyn y cyfarfod safle: a. Y bydd yn anfon at y Cyngor yn gofyn am ystyried cyflwyno llinellau melyn, yn

rhoi amcan bris addasu'r twmpath ac yn gofyn ydi'r Cyngor yma am i'r Cyngor Sir edrych i mewn i syniad o adeiladu troedffordd newydd ar y rhan yma o'r ffordd? Penderfynwyd ymateb ar ôl derbyn cynllun y Cyngor Sir.

b. Carreg ar ffordd Rhoslan ger Llwyn. Mae hyn wedi'i gyfeirio'n benodol am gyngor yr Adran Priffyrdd ym Mhwillheli.

c. Gor yrru ar y ffordd ger Tan yr Erw. Edrych i mewn i bosibilrwydd gosod ARAF/SLOW ar y ffordd.

ch. Cerbydau trwm yn teithio ar hyd lôn gul ger Ynys Creua. Gosod arwyddion "anaddas i gerbydau trwm".

d. Parcio ger Golchdy Afonwen. Barn y Swyddog oedd y byddai'n well i'r Cyngor yma anfon llythyr at Yr Olchfa yn tynnu eu sylw at y broblem. Penderfynwyd peidio gan bod pethau wedi gwella'n ddiweddar.

4. Adran Rheoleiddio, Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd; Deddf Trwyddedu 2003, Cais am Drwydded Eiddo, Awake Fest, Glasfryn Parc, Y Ffôr. Penderfynwyd peidio rhoi sylwadau ar y cais yma.

5. Cefnogaeth Gorfforaethol; gwahoddiad i ran 2 ymarferiad Her Gwynedd. Doedd neb yn gallu mynd i'r run o'r cyfarfodydd.

9. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y Gymuned:

1. Cais rhif C15/0421/41/LL – Estyniad i fodurdy presennol (diwygiad i gynllun a wrthodwyd dan gais rhif C15/0012/41/LL; Llety Plu, Llanybi. Penderfynwyd cefnogi.

2. Cais rhif C15/0387/41/RC – Diddymu Cytundeb 106 sy'n cyfyngu'r defnydd i angen lleol yn unig; Cefn Helyg, Llanybi.

Cais rhif C15/0504/41/LL – Diddymu amod 2 o ganiatad cynllunio 2/21/259 sy'n cyfyngu'r defnydd i angen lleol yn unig; Cefn Helyg, Llanybi.

Mae rhif y cais yma wedi newid o C15/0387/41/RC i c 15/0504/41/LL

Dyma'r unig beth sydd wedi newid. Penderfynwyd cefnogi.

Gofyn am wybodaeth bersonol gan Gynghorwyr unigol:

Cais rhif C15/0464/41 TC – Tystysgrif Datblygiad Cyfreithiol ar gyfer cadw carafan warden ar barc gwyliau; Bron Eifion Fishing Lakes & Lodges, Criccieth. Nid oedd gan y Cynghorwyr unrhyw wybodaeth i'w anfon i Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd a gofynnwyd i'r Clerc anfon yn mynegi hynny.

10. Llywodraeth Cymru; Y Rhaglen Ddiwygio Llywodraeth Leol. Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth yn diolch am gyfraniad y Cyngor.

11. Un Llais Cymru:

a. Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor; Ymgynghoriad ar Amseroedd Cyfarfodydd y Pwyllgor Ardal. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cynghorydd Trefor Wyn Jones cyn anfon ymateb y Cyngor.

b. Ffurflen ynghylch Cofrestru Buddiannau Aelodau.

c. Mynediad i Wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref.

Dyma'r materion drafodwyd:

1. Cyhoeddi ymlymiad gwleidyddol.

2. Cyhoeddi cyfrifon.

3. Cyhoeddi aelodau cyfetholedig.

4. Cofrestru'r wefan-band ffeibr.

5. Rhoi Hysbysiadau ar y safle we.

6. Cofrestru buddianau aelodau.

Penderfynwyd galw cyfarfod o Bwyllgor Safle'r We i drafod y pwyntiau a gofynnwyd am gael copiau o'r ffurflenni ar gyfer rhif 1, cyhoeddi ymlymiad gwleidyddol, a rhif 6, cofrestru buddianau aelodau ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor.

12. Llythyr oddi wrth yr Ombwdsman, cyfarwyddyd Diwygiedig ar y Cod Ymddygiad. Does dim copiau caled o'r Canllawiau ond gellir eu gweld ar www.ombudsman-wales.org.uk. Gofynnwyd i bawb sydd gyda mynediad i'r we fwrw golwg ar y ddogfen.

13. Materion yn y gymuned.

Chwilog.

1. Torri gwellt ar gylchfan Afonwen. Penderfynwyd gofyn i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd wneud y gwaith.

2. Torri gwellt ger mynedfa stâd Cae Capel, Chwilog. Penderfynwyd gofyn i berchennog y tir dorri'r gwellt.

Llanystumdwy

Coeden angen sylw ger bedd David Lloyd George. Penderfynwyd gofyn am brisiau gan Mr Meilir Huws, Penygroes ac ymgymerwr arall, y deallwyd yn ddiweddarach, sydd wedi rhoi'r gorau i wneud y math yma o waith.

Pencaenewydd

Tai Cartrefi Cymunedol Gwynedd ar stâd dai Tregarn. Penderfynwyd gofyn i GCG am esboniad o'u polisi pwyntiau i ddarpar denantiaid gael rhentu tŷ ganddynt.

14. Materion sydd heb gael ymateb ar ôl gohebu yn eu cylch ers dros ddau fis. Doedd dim byd i'w drafod y mis yma.

15. Cerdyn oddi wrth Urdd Ysgol Chwilog yn diolch am y cyfraniad ariannol. Derbyniwyd.

16. Lleoliad cyfarfodydd y Cyngor o fis Gorffennaf 2015 ymlaen. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd cynnal y cyfarfodydd dri mis ar y tro yn Neuadd Goffa Chwilog, Festri Capel Pencaenewydd a Neuadd Llanystumdwy. Felly bydd cyfarfod misoedd Mehefin a Gorffennaf yn Neuadd Goffa Chwilog; cyfarfodydd misoedd Medi, Hydref a Thachwedd yn Festri Capel Pencaenewydd; a chyfarfodydd misoedd Rhagfyr, Ionawr a Chwefror 2016 yn Neuadd Llanystumdwy.

17. Cysylltiad i'r we yn Neuadd Goffa Chwilog. Gan y bydd cyfarfodydd y Cyngor yn symudol, penderfynwyd nad oedd angen cysylltiad i'r we yn Neuadd Goffa Chwilog.

18. Derbyn crynodeb o gyfrifon Inewm a Gwariant y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth, 2015. Penderfynwyd derbyn adroddiad yr Archwiliwr Mewnol oedd yn fodlon iawn gyda'r cyfrifon ac yn awr gellir cwblhau'r ffurflenni priodol i'w hanfon ymlaen at yr Archwiliwr Allanol cyn Mai 31ain, 2015.

Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.

Ail agor y Cyngor gyda chaniatad y Cadeirydd

25. Derbyniwyd cwyn bod rhai bysiau ar y gwasanaeth rhwng Pwllheli a Chaernarfon ddim yn troi mewn i safle bws Maes Myrddin, Chwilog, er bod teithwyr yn aros am y bws. Penderfynwyd anfon at Adran Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

